**LC178**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**The National Assembly for Wales**

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

## Gorchymyn Deddf Dysgu a Medrau 2000 (Cychwyn Rhif 3 a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2001

### Y Cefndir

Mae'r Gorchymyn hwn yn dod â'r darpariaethau hynny yn Neddf Dysgu a Medrau 2000 a bennir, yn ôl eu trefn, yn Rhan I a II o'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Ebrill 2001.

Mae'r Gorchymyn yn darparu hefyd ar gyfer darpariaethau trosiannol ac yn pennu, mewn achos penodol, fod yna eithriad yn gysylltiedig â'r cychwyn.

### Rheol Sefydlog 11.5

Nodwyd dau bwynt lle mae'n ymddangos bod drafftio'r Rheoliadau yn ddiffygiol.

Mae'r pwynt cyntaf yn ymwneud â Rhan I o'r Atodlen. Mewn perthynas ag adran 30(1) o Ddeddf Addysg 1997 nid yw 'and subsection (3)' wedi'u cynnwys yn y testun Cymraeg.

Mae'r pwynt cyntaf yn ymwneud â Rhan II o'r Atodlen. Mewn perthynas ag adran 403(1) o ddeddf Addysg 1996, mae'r gair Cymraeg am 'Act' wedi'i sillafu'n anghywir. Dylid defnyddio 'Neddf' yn lle 'Nedf'.

Yr ydys o'r farn mai mân wallau drafftio yw'r materion uchod a fyddai'n briodol eu cywiro mewn Memorandwm Cywiriadau. Gan hynny, ar yr amod bod Memorandwm Cywiriadau yn cael ei gyflwyno gerbron y Cynulliad, mae'r Pwyllgor yn fodlon cyflwyno adroddiad nad oes unrhyw faterion yn codi o dan Reol Sefydlog 11.5 y mae angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt.

**Sylwadau Cyffredinol**

**Y Pennawd**

Mae angen gofod rhwng ‘and’ a ‘Transitional’ yn y testun Saesneg.

**Y Nodyn Esboniadol – y trydydd paragraff**

Mae’r trydydd paragraff yn cynnwys 38 o linellau ac yn cyfeirio at 13 o adrannau. Gan mai Nodyn Esboniadol yw hwn gyda’r amcan o gyfleu diben y Gorchymyn mewn iaith syml, oni fyddai’n ddoeth ystyried ailddrafftio’r paragraff a rhai tebyg?

**Y Nodyn Esboniadol – y 13$^{eg}$ paragraff**

Dylai ‘educationauthorities’ yn y testun Saesneg ddarllen ‘education authorities’.

**Y Nodyn Esboniadol – y tabl**

Dylai ‘YnAtodlen 9’ yn y trydydd grŵp ddarllen ‘Yn Atodlen 9’.

Mae angen dileu’r bachau petryal yn y grŵp olaf yn y ddau destun.

**Yr Atodlen – Rhan I**

Mae paragraff 76 yn y lle anghywir yn y testun Saesneg.

**MICK BATES A.C.**
Cadeirydd, Y Pwyllgor Deddfau

27 Chwefror 2001